

Cyngor Cymuned Llanfrothen  
COFNODION CYFARFOD MISOL MEHEFIN 2018  
25 MEHEFIN 2018 7.30 Canolfan Gmdeithasol Llanfrothen

## **CYFLWYNIAD GAN MICHELLE WILLIAMS, TRAFNIDIAETH GYMUNEDOL**

Mynchodd Micehelle Williams o Drafnidiaeth Cymunedol, a rhoddodd grynodedb o waith a phwrpas Trafnidiaeth Gymunedol, sef i hyrwyddo trafndiaeth leol mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru

Maent yn gweithio gyda Cysylltu Cymunedau ac yn edrych am y bylchau mewn trafndiaeth yn yr ardaloedd gwledig, ac ystyried a fyddai'n bosibl cydweithio gydag eraill er mwyn darparu gwell cysylltiadau trafndiaeth.

Er enghraifft ym Môn, mae gwirfoddolwyr yn cynnig teithiau i Swyddfa'r Post, Ysbyty, ac yn y blaen ac yn cael eu talu eu costau teithio am wneud hynny.

Ym Mhowys, ceir cynllun ceir tacsï, ble mae gwirfoddolwyr yn casglu arian i redeg y gwasanaeth

Eglurodd fod angen i bob cymuned feddwl am yr angen a beth sy'n addas i'r gymuned honno. Pa fath o wasanaeth sydd ei angen, i bwy, i ble, pa bryd?

Gallai Trafnidiaeth Gymunedol roi cymorth pe byddai angen gwneud cais am arian i redeg cynllun penodol.

Cytunwyd mae'r cam ymlaen fyddai danfon crynodeb o'r arolwg a wnaethpwyd gan y Cynghorydd Dafydd Watts am anghenion trafndiaeth yn lleol i Michelle, a chael cyfarfod gyda chymunedu lleol yn yr ardal, megis Penrhyndeudraeth, Harlech, Talsarnau, Beddgelert a Phorthmadog. Bydd Michelle yn trefnu'r rhain.

### **1. YMDDIHEURIADAU**

Nia Povey

## **2. DATGAN DIDDORDEB**

Datganodd y cynghorydd Dafydd Watts fuddiant yn Ynni Twrog, (gohebiaeth).

## **3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 14 Mai 2018.

### **PRESENNOL :**

Cynghorwyr: Richard Jones, Rhydwen Roberts, Nyfain Wynn, Glyn Griffiths, Llio Griffiths  
Cadeirio: Dafydd Watts

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

## **4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

### **4.1 Llwybrau Cyhoedddus**

Mae angen trefnu pa lwybrau sy'n cael eu torri a phryd. Mae llwybrau Categori 1 a 2 yn cael eu torri ond peidiwyd â thorri llwybrau category 3, yn dilyn toriad yn y cymorth ariannol gan Gyngor Gwynedd.

Penderfynwyd fod angen trafod pa wybrau fyddai'n cael eu torri a phryd.

### **4.2 Bws Cymunedol**

Gweler y drafodaeth uchod.

### **4.3 Arosfan Fysiau Llanfrothen**

Mae Cyngor Gwynedd wedi cwblhau cynllun yn dangos sut y byddai arosfan fws yn gweithio o'i lleoli y tu allan i Siop y Pentref.

Cost y waith fyddai tua £40,000. Byddai hynny ymhell y tu hwnt i allu'r Cyngor Cymuned i gyfrannu'n ariannol.

Mae'r costau yn bennaf oherwydd iechyd a diogelwch, oherwydd fyddai cyngor Gwynedd ddim yn fodlon i fws droi i mewn i faes parcio'r siop heb i addasiadau gael eu gwneud. Yn ogystal, maent o'r farn y byddai angen symud polyn trydan Scottish Power.

Y Clerc i ofyn i Gyngor Gwynedd a fyddai yna opsiynau arall rhatach yn bosibl ac a fyddai'n bosibl peidio symud y polyn trydan oherwydd y gost, neu bod y Cyngor Cymuned yn gofyn i Scottish Power symud y polyn trydan am ddim, er budd y gymuned.

#### **4.4 Damwain Cerbyd Wiltshire Foods**

Cafwyd ateb anghwrtais iawn gan Wiltshire Foods, yn dweud eu bod yn ymwybodol o'r digwyddiad, ond nad oeddynt am drafod y mater ymhellach.

#### **4.5 Mynwent Tan Lan**

Cafwyd tri pris i dorri gwair mynwent Tan Lan. Penderfynwyd dyfarnu'r cytundeb i Dylan Edwards o Benrhyndeudraeth, wedi ystyried y pris a gynnigiwyd, a'r ffaith ei fod yn byw yn gymharol agos at y fynwent.

Bydd y gwair yn cael ei dorri 5 gwaith yn ystod y flwyddyn a'r drain a'r brwyn sy'n tyfu ar ochr y llethr yn cael sylw 2 waith y flwyddyn. Bydd hefyd yn torri ac yn tacluso'r coed sy'n tyru rhwng y beddi.

Penderfynwyd fod y toriadau torri gwair yn cael eu gwasgaru'n gymharol hafal yn ystod misoedd Mai, Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi bob blwyddyn.

Mae angen penderfynu ar y trefniadau gwagio biniau yn y cyfarfod nesaf. Mae'n bosibl y bydd Cyngor Gwynedd yn fodlon darparu'r gwasanaeth yma.

#### **4.6 Pant yr Allt, Ffordd Morfa**

Mae Cyngor Gwynedd yn parhau i fonitro'r safle, ond mae hawl gan nifer rhesymol o unigolion i wersylla yn eu heiddo am gyfnodau yn ystod y flwyddyn.

#### **4.7 Cyflwr 13 Garreg Frech**

Mae'r Clerc yn disgwyl ateb gan adran tai gwag cyngor Gwynedd.

Mae'r gorchymyn Preswylfeydd Gwag yn rhoi pwer i awdurdod lleol atafaelu eiddo sy'n wag am gyfnod hir.

### **5. Gohebiaeth**

- Diweddariad gan National grid ar eu prosiectau yn lleol
- Ynni Twrog (cytunwyd i gyfrannu £50.00)
- Llythyrau diolch gan Ysgol y Garreg, Yr Wylan, Clwb Ffermwyr Ifanc Eryri

### **6. Materion Ariannol**

**6.1** Dwr Cymru, Y Ganolfan Gymdeithasol £62.07

**6.2** SSE – Trydan y Ganolfan Gymdeithasol

**6.3** Yswiriant BHIB 2018/19, angen ad-dalu'r Clerc £833.09

**6.4** Anfoneb Kerr – agor bedd newydd dyfn 2 £380.00

**6.5** Derbyn tâl claddu Pritchard & Griffiths 25/05/2018 745.  
£1,210

**6.6** Adolygu Cyflog y Clerc – i'w drafod yng nghyfarfod Medi

### **7. Ceisiadau Cynllunio**

Dim

### **8. Materion Eraill**

#### **8.1 Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol**

Ni chafwyd amser i drafod yn fanwl, a gohiriwyd i'r cyfarfod nesaf

## **8.2 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

Ni chafwyd amser i drafod yn fanwl, a gohiriwyd i'r cyfarfod nesaf

## **8.3 Penderfynu Cynrychiolaeth ar Bwyllgor Un Llais Cymru**

Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Dafydd Watts yn cynrychili'r Cyngor Cymuned ar bwyllgor Un Llais Cymru, Meirionnydd

## **8.4 Cynnal Aseiad Risg o'r Ganolfan**

Awgrymodd y CYnghorydd Dafydd Watts y byddai'n synhwyrol gneud aseiad risg cyfredol o'r Ganolfan. Cytunwyd y byddai'n syniad da gwneud hyn dros yr Haf.

## **8.5 Cytundeb Delwedd**

Ni chafwyd amser i drafod yn fanwl, a gohiriwyd i'r cyfarfod nesaf

## **8.6 Cytuno ar dyddiad y cyfarfod**

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cae ei gynnal nos Lun 3 Medi 2018